CYNGOR EGLWYSI RHYDDION CYMRU

CYFARCHION Y PASG

PASG 2021

Anobaith a THRISTWCH

Y Groes

Gobaith a LLAWENYDD

Y Bedd Gwag

Wrth eich cyfarch fel aelodau yr Eglwysi Rhyddion yng Nghymru ar drothwy'r Pasg mae'r ddau lun uchod yn cynnig eu hunain fel y delweddau priodol nid yn unig am y cyfnod hwn sy'n cynychioli ein Gŵyl bwysicaf fel Cristnogion ond fod y geiriau sy'n gysylltiedig â'r lluniau hefyd yn adlewyrchiad teg o'r flwyddyn a aeth heibio. Mae anobaith a thristwch wedi 'n goddiweddu ac yn nodweddion mor amlwg ers dros flwyddyn bellach ond siawns na fydd goruchafiaeth y Bedd Gwag hefyd nid yn unig yn gysur i ni ond hefyd yn rhoi gobaith am lawenydd yn y dyfodol.

NOS IAU CABLYD a GWENER Y GROGLITH

Judas yn bradychu. Y disgyblion yn cysgu. Y Sanhedrin yn condemnio. Pedr yn gwadu. Pilat yn gweithredu. Y milwyr yn gwatwar. CROESHOELIO Iesu ar Golgotha.Tywyllwch dros y wlad am dair awr. Llen y deml yn cael ei rhwygo.Y DISGYBLION WEDI EI ADAEL Magdalen. **Wrth y Groes** - Merched –Mair mam Iesu (a mam Iago a Joseff) Mair, a mam meibion Sebedeus. Hefyd 'y disgybl yr oedd Iesu yn ei garu'. Claddu Iesu.

Dyna ddigwyddodd 2000 a mwy o flynyddoedd yn ôl. Iesu wedi blynydoedd o addysgu a dangos y ffordd i'w ddisgyblion mae'n eu gweld yn ei fradychu, ei wadu ac yn cuddio o olwg y bobl. Dim ond y Merched ac un disgybl oedd wrth y Groes. Ond yno hefyd oedd dau ddihyryn, milwyr ac anffyddiwr o ganwriad. Y rhai mwyaf annisgwyl gydag un yn gofyn am faddeuant a'r canwriad yn cyffesu "Mab Duw oedd e, reit siwr

CORONAFEIRWS- COFID 19

Mawrth 2020 – Y pandemig yn hitio. Blwyddyn o anobaith a thristwch. Cyfnodau o bopeth ar glo drwy'r wlad i gyd. Dim Capeli ar agor. Dim priodasau. Miloedd yn marw. **OND GOBAITH** gyda dyfodiad y brechlyn – diolch am ddyfeisgarwch gwyddonwyr. Eglwysi yn ymateb drwy wahanol ffyrdd ac yn cynnal oedfaon a gweithgareddau eraill drwy ddefnyddio amrywiaeth technolegol.

SUL Y PASG

Y MERCHED yn dod at y bedd. Y "maen" wedi ei dreiglo. Mynd i hysbysu y disgyblion fod Iesu wedi atgyfodi. Pedr a'r disgybl 'oedd Iesu yn ei garu' yn dod at y bedd gwag 'gwelodd ac fe gredodd'. Disgyblion yn mynd yn ôl gartref. Iesu'n YMDDANGOS I ddisgyblion yn yr ystafell/ar lan y môr. Pedr yn gwneud ei ddatganiad "Rwyt yn gwybod fy mod yn dy garu di." **BETH WEDYN?** LLAWENYDD Y Sulgwyn; Pregethu Pedr.

Y DYFODOL? Beth sy gan neges Y Pasg i ddweud wrthym fel Eglwysi Rhyddion am y dyfodol yng ngoleuni anobaith a thywyllwch 2020-21. Edrychwn ymlaen yn ffyddiog gyda gobaith am ddyfodol llewyrchus yn llawn llawenydd. Cofiwn beth oedd nodweddion yr Eglwys Fore – roeddent yn cyfarfod i addoli ac roedd pawb yn sylwi mor llawen yr oeddden nhw. Mae'r cyfnod diweddar wedi dangos bod POSIB newid pan fo rhaid. Fedrwn ni byth fynd yn ôl i wneud pethau fel yr oedden nhw. Nid wyf am awgrymu mai Duw sy'n gyfrifol am COVID19 ond mae "Rhagluniaeth fawr y nef" ar waith ac yn sicr bydd y "normal newydd" yn cynnwys gwasanaethau ar lein/zoom ayyb. Cyfle gwych i ni ddod at ein gilydd fel Enwadau i gyd addoli, i ddefnyddio ein hadnoddau dynol ac adeiladau yn llawer mwy effeithiol ar y cyd. Beth am werthu pob capel ond un mewn gofalaeth/cylch a chael hwnnw ar gyfer ardal a newid y gweddill yn fflatiau/tai ar gyfer eu gosod/gwerthu i bobl ifanc y cylch? Mae llawer o bosibiliadau. Ewch ati yn llawn gobaith i feddwl ac i drefnu.

PASG LLAWN LLAWENYDD I BOB DARLLENYDD

Rheinallt A Thomas
Llywydd Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru